Cyllideb 2001

Buddsoddi ar gyfer yr Hir Dymor:
Adeiladu Cyfleoedd a Ffyniant i Bawb

Trysorlys EM Mawrth 2001

Cyllideb 2001

Buddsoddi ar gyfer yr Hir Dymor: Adeiladu Cyfleoedd a Ffyniant i Bawb

Ymhlith mesurau allweddol y Gyllideb mae...

- £1 biliwn ychwanegol ar gyfer addysg, £1 biliwn ar gyfer iechyd a £0.3 biliwn ar gyfer yr ymgyrch yn erbyn cyffuriau dros y tair blynedd nesaf;
- ymestyn y band treth incwm 10c £300 uwchben lefel chwyddiant o fis Ebrill 2001;
- cynnydd o £1.50 yr wythnos yn y Credyd Treth i Blant i £10 o fis Ebrill 2001 a chynyddu'r credyd i £20 yr wythnos o Ebrill 2002 i deuluoedd yn ystod blwyddyn geni plentyn;
- cynnydd o £5 yr wythnos yn y credyd sylfaenol yn y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio o fis Mehefin 2001;
- cynyddu tâl mamolaeth i £100 yr wythnos erbyn Ebrill 2003 ac ymestyn y cyfnod mamolaeth o 18 i 26 wythnos
- cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i weithwyr 22 oed a throsodd i £4.10 yr awr ym mis Hydref 2001 gan ddibynnu ar yr amodau economaidd ar y pryd, £4.20 yr awr ym mis Hydref 2002; a
- gostyngiad o 2c y litr yn y dreth ar betrol sy'n isel iawn o ran swlffwr a gostyngiad o 3c y litr yn y dreth ar ddisel sy'n isel iawn o ran swlffwr o ddiwrnod y Gyllideb.

Sut mae'r Gyllideb yn effeithio arnoch chi a'ch teulu...

Erbyn mis Hydref 2001, o ganlyniad i newidiadau mewn treth bersonol a budd-daliadau a gyflwynwyd dros y Senedd yn gyffredinol:

- ar gyfartaledd, bydd cartrefi £590 y flwyddyn yn well eu byd;
- bydd teuluoedd â phlant, ar gyfartaledd, £1,000 y flwyddyn yn well eu byd; a
- bydd y baich treth uniongyrchol ar deulu sydd ag un enillydd cyflog ar enillion cyfartalog sydd â 2 blentyn ar ei isaf ers 1972.

Gwasanaethau cyhoeddus cryf...

O ganlyniad i reoli arian cyhoeddus mewn modd darbodus, gall y Gyllideb ddyrannu £2 1/3 biliwn ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus sy'n flaenoriaeth dros y tair blynedd nesaf.

Ar gyfer iechyd:

- adeiladu ar y cynnydd sylweddol sydd eisoes wedi'i gynllunio o fis Ebrill, £1 biliwn ychwanegol ar gyfer yr NHS dros y tair blynedd nesaf;
- mae hyn yn cynnwys £450 miliwn ar gyfer ysbytai i dalu am offer newydd fel sganwyr ac i ddisodli'r hen wardiau Nightingale â wardiau newydd. Bydd ymddiriedolaethau ysbytai llym yn derbyn rhwng £1/2 miliwn a £1 filiwn y flwyddyn yr un. Yn ogystal â hyn, bydd cronfa newydd bellach yn helpu i recriwtio a chadw staff gwasanaeth iechyd allweddol.



Ffynhonnell: Trysorlys EM

Ar gyfer addysg:

- £1 biliwn ychwanegol ar gyfer addysg dros y tair blynedd nesaf;
- mae hyn cynnwys £600 miliwn i fynd yn uniongyrchol i benaethiaid er mwyn moderneiddio adeiladau ac offer ac i wella cyrhaeddiad disgyblion. Bydd ysgolion cynradd yn derbyn taliadau uniongyrchol ychwanegol o £3,000 - £13,000 y flwyddyn, a bydd ysgolion uwchradd yn derbyn ychwanegiadau o £10,000 - £23,000 y flwyddyn. Bydd cronfa bellach o £200 miliwn dros dair blynedd yn helpu ysgolion i recriwtio a chadw athrawon.

Ar gyfer mynd i'r afael â chyffuriau:

- £0.3 biliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys £220 miliwn i helpu cymunedau i gael gwared ar droseddau sy'n ymwneud â chyffuriau ac adnoddau ychwanegol i gefnogi gweithredu gwirfoddol yn erbyn cyffuriau gan arweinwyr byd busnes a chwaraeon.

Adeiladu cymdeithas decach...

Mae Cyllideb 2001 yn cynnwys mesurau newydd i gefnogi teuluoedd a mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant, darparu sicrwydd ariannol mewn henaint a sicrhau system dreth deg. Dros y Senedd yn gyffredinol bydd y newidiadau i dreth bersonol a budd-daliadau a gyflwynwyd yn codi dros 1.2 miliwn o blant allan o dlodi.

- cynyddu'r Credyd Treth i Blant o £8.50 i £10 yr wythnos o'i gyflwyno ym mis Ebrill 2001 (gan ddisodli lwfans pâr priod a ddiddymwyd ym mis Ebrill 2000), gan ei wneud yn werth hyd at £520 y flwyddyn;

- cynyddu'r credyd i £20 yr wythnos o fis Ebrill 2002 i deuluoedd yn ystod blwyddyn geni plentyn gan ei wneud yn werth hyd at £1,040 yn y flwyddyn honno;

- £5 ychwanegol yr wythnos ar y credyd sylfaenol yn y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio (WFTC) o fis Mehefin 2001 a £1.50 yr wythnos yn ychwanegol o fis Hydref 2001 yn y premia plant ar gyfer Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith;

- pecyn o fesurau ar dâl mamolaeth ac amser i ffwrdd i rieni:

  - cynnydd yn y gyfradd unffurf o Dâl Mamolaeth Statudol a Lwfans Mamolaeth o £60.20 yr wythnos fel ag y mae ar hyn o bryd i £75 yr wythnos o fis Ebrill 2002 a £100 yr wythnos o fis Ebrill 2003;

  - ymestyn y cyfnod o dâl mamolaeth statudol o 18 wythnos i 26 wythnos yn 2003;

  - yr hawl i amser i ffwrdd â thâl wrth fabwysiadu ar gyfer un rhiant a phythefnos o gyfnod tadolaeth â thâl i dadau sy'n gweithio o 2003; a

  - cynnydd o £200 yn y Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn i £500 o fis Ebrill 2002.

- yn ogystal â'r cynnydd ym mhensiwn sylfaenol y wladwriaeth dros y ddwy flynedd nesaf, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2000, cynnydd yn y lwfansau treth incwm yn gysylltiedig ag oedran ar gyfer pensiynwyr o £240 yn uwch na lefel chwyddiant o fis Ebrill 2003; a

- dim newid yn y dreth ar alcohol a chynnydd yn y dreth ar dybaco yn unol â chwyddiant.

Moderneiddio trafnidiaeth ar y ffyrdd a diogelu'r amgylchedd...

Mae'r Gyllideb yn cyhoeddi mesurau i annog trafnidiaeth lanach ar y ffyrdd, lleihau'r dreth ar geir bach a chefnogi diwydiant cludo nwyddau'r DG:

- gostyngiad o 2c y litr yn y dreth ar betrol sy'n isel iawn mewn swlffwr (ULSP) y gellir ei ddefnyddio ym mhob car sy'n rhedeg ar betrol di-blwm. Mae'r dreth ar betrol di-blwm hefyd wedi'i gostwng o 2c y litr hyd 14 Mehefin 2001 pan fydd ULSP ar gael i bob manwerthwr;

- gostyngiad o 3c y litr yn y dreth ar ddisel sy'n isel iawn mewn swlffwr;

- rhewi'r dreth cerbyd (VED) i geir a beiciau modur, ac ehangu'r gyfradd ostyngol o dreth cerbyd i geir gydag injan hyd at 1,549cc, gan gynnwys rhai ceir Ford Escort, Vauxhall Astra, Nissan Micra a Rover Metro;

- diwygiad mawr sy'n cwtogi ar y dreth cerbyd i lorïau o fis Rhagfyr 2001, gan ddod â chyfraddau'r DG i lawr i fod ymhlith yr isaf yn Ewrop ar gyfer y lorïau glanaf. Yn y cyfamser, mae trefniadau dros dro, ac ad-daliadau ers Tachwedd 2000 wedi gostwng cyfraddau hyd at 50%; a

- diddymu treth cerbyd ar dractorau a cherbydau amaethyddol tebyg o fis Ebrill 2001, gan arbed dros £10 miliwn y flwyddyn i ffermwyr.

Hefyd er mwyn diogelu'r amgylchedd:

- caiff yr ardoll newid yn yr hinsawdd a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 99 ei chyflwyno o fis Ebrill 2001 er mwyn annog effeithlonrwydd ynni yn y sectorau busnes a chyhoeddus. Caiff y refeniw o hyn ei ailgylchu yn ôl i fusnes drwy ostyngiad o 0.3% yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a mesurau i gefnogi camau arbed ynni gan fusnesau;

- cynnydd yn y dreth tirlenwi er mwyn hyrwyddo gwell rheolaeth ar wastraff, fel rhan o raglen pum mlynedd o godiadau hyd at 2004; a

- fel y cyhoeddwyd yng Nghyllideb 2000, cyflwynir y dreth agregiadau yn 2002 er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol chwarelydda, gyda'r refeniw yn cael ei ddychwelyd i fusnesau a chymunedau lleol.

Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bawb

Mae dros 1 filiwn yn fwy o bobl mewn gwaith nag a oedd yng ngwanwyn 1997. Mae Bargen Newydd y Llywodraeth eisoes wedi helpu dros 270,000 o bobl ifanc i ddod o hyd i swyddi. Yng nghyd-destun y Fargen Newydd mae diweithdra ymhlith yr ifanc wedi gostwng 80% a gwelwyd gostyngiad o fwy na dwy ran o dair mewn diweithdra hir dymor.



Gan adeiladu ar y diwygiadau treth a budd-daliadau a gyflwynwyd eisoes i helpu pobl i symud o les i waith ac i wneud i waith dalu:

- bydd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr 22 oed a throsodd yn codi 40c i £4.10 yr awr o fis Hydref 2001 ac, yn dibynnu ar yr amodau economaidd ar y pryd, yn codi i £4.20 yr awr o fis Hydref 2002;
- caiff y band treth incwm 10c ei ymestyn £300 yn fwy na chwyddiant o fis Ebrill 2001 i gwmpasu £1,880 cyntaf incwm trethadwy, gan fod o fudd i 25 miliwn o drethdalwyr, a chynyddu nifer y bobl sydd ond yn talu treth ar 10c i ymron i 3 miliwn;
- fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, o fis Ebrill 2001 caiff y trothwy pan fydd rhaid i gyflogeion dalu cyfraniadau yswiriant gwladol ei gynyddu a'i alinio gyda lwfans personol treth incwm a chaiff y terfyn enillion uwch ei gynyddu hefyd;
- er mwyn darparu cymorth pellach gyda chostau gofal plant, o fis Mehefin 2001 bydd y terfyn credyd treth gofal plant o fewn y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio yn codi o £100 i £135 yr wythnos ar gyfer teulu gydag un plentyn, ac o £150 i £200 yr wythnos ar gyfer teulu gyda dau neu fwy o blant; ac
- ar gyfer rhieni unigol, caiff darpariaeth y Fargen Newydd ei gwella, gan gynnwys cymorth ychwanegol gyda hyfforddiant, hunan-gyflogaeth a chostau gofal plant. Er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt, bydd angen i bob rhiant unigol ar Gymhorthdal Incwm fynychu cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith.

Cyflwyno economi sefydlog...

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gyflwyno economi cryf a sefydlog, gan osgoi dychwelyd i duedd ffyniant a dirywiad y gorffennol. Mae twf cyson a sefydlog bellach yn mynd law yn llaw â'r lefel isaf o ddiweithdra ers y 1970au a'r lefel isaf o chwyddiant ers dros 30 mlynedd;*µ*

- disgwylir i chwyddiant aros yn agos i darged y Llywodraeth o 2½%;
- rhagwelir y bydd cyfanswm allbwn yr economi yn tyfu rhwng 2¼ a 2 ¾% ym mhob un o'r tair blynedd nesaf;
- mae nifer y bobl mewn gwaith ar draws y DG wedi parhau i godi - i fyny o dros 1 filiwn ers gwanwyn 1997 i lefel nas gwelwyd ei thebyg erioed o'r blaen; ac
- mae'r arian cyhoeddus yn parhau i fod ar y trywydd i fodloni rheolau ariannol llym y Llywodraeth gan ategu'r buddsoddiad newydd sylweddol yng ngwasanaethau cyhoeddus allweddol Prydain fel y'u nodwyd yn Adolygiad o Wariant Gorffennaf 2000.

Adeiladu busnesau Prydeinig cryfach...

Mae cyfanswm y cynhyrchiant fesul gweithiwr yn y DG yn is nag mewn economïau mawr eraill megis yr Unol Daleithiau, Ffrainc a'r Almaen. Mae Cyllideb 2001 yn cynnwys mesurau newydd i helpu i gau'r bwlch cynhyrchiant hwn:

- lleihau beichiau costau gweinyddol a chydymffurfiad sydd ar gwmnïau bach a chanolig eu maint drwy gyfrwng y systemau TAW a threth gorfforaeth;
- ymgynghori ar fesurau treth i roi hwb i ymchwil a datblygiad gan gwmnïau mawr er mwyn ategu'r credyd treth ymchwil a datblygu i gwmnïau bach;
- annog perchenogaeth cyfranddaliadau i gyflogeion drwy ehangu Cymhellion Rheoli Mentrau; a
- gwell hyblygrwydd i Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol er mwyn helpu i hybu twf a menter ar draws pob rhanbarth.

Lle caiff arian y trethdalwr ei wario...

Disgwylir i wariant cyhoeddus fod tua £394 biliwn y flwyddyn nesaf, tua £6,500 i bob dyn, merch a phlentyn yn y DG. Disgwylir iddo gynyddu i £418 biliwn yn 2002-03 a £443 biliwn yn 2003-04.

Lle caiff arian y trethdalwr ei wario

Cyfanswm y gwariant a reolir £394 biliwn



[1]Yn cynnwys gwariant ar weinyddiaeth ganolog, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, cydweithrediad a datblygiad rhyngwladol a phensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn ogystal â gwariant sydd eto i'w ddyrannu a pheth addasiadau cyfrifo.

Ffynhonnell: Trysorlys EM, ffigurau 2001-02 yn dilyn Cyllideb 2001

O ble y daw trethi

Cyfanswm y derbyniadau £398 biliwn



[1]Yn cynnwys trethi cyfalaf, toll stamp, treth cerbyd a rhai derbynebion treth a di-dreth eraill (e.e. llog a buddrannau).

Ffynhonnell: Trysorlys EM, ffigurau 2001-02 yn dilyn Cyllideb 2001

Er mwyn archebu copïau pellach o'r daflen hon, neu gael fersiwn ar fformat arall, ffoniwch:

0845 601 1041

Am fwy o fanylion ar y Gyllideb, ymwelwch â safle'r Trysorlys ar y rhyngrwyd yn http://www.hm-treasury.gov.uk